

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Ysgol Gyfun Gŵyr

2020-2024

(a adlewyrchir yn bennaf i blant erthygl 37-eich hawl i gael eich trin yn deg yng Nghonfensiwn CU ar Hawliau'r Plentyn)



City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe



Mae'n ofyniad cyfreithiol i ysgolion ddatblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd. Rhaid i bob CCS gynnwys amcanion cydraddoldeb ac esbonio sut bydd yr ysgol yn eu cyflawni. Rhaid iddo hefyd ddangos bod yr ysgol yn casglu'r wybodaeth a'r dystiolaeth berthnasol i fod yn sail i'w phenderfyniadau. Mae'n ofynnol hefyd i'r cynllun amlinellu prosesau ar gyfer monitro cynnydd ac asesu effaith cydraddoldeb.

Dylid cysylltu amcanion cydraddoldeb â strategaethau ac ymagweddau presennol at gynhwysiad, bwlio, rheoli ymddygiad, gwella cyrhaeddiad, llais y disgybl, lles a chefnogi disgyblion. Dylai ysgolion geisio adeiladu ar eu gwaith presennol a sicrhau yr ystyrir cydraddoldeb a thegwch mewn gweithgareddau prif ffrwd.

Yn ogystal â'r uchod, bydd rhai o'r amcanion cydraddoldeb a geir yng nghynlluniau ysgolion yn deillio o faterion a nodwyd o ganlyniad i ymgynghori â disgyblion, rheini, gofalwyr a llywodraethwyr. Bydd amcanion cydraddoldeb eich CCS ar gyfer y pedair blynedd nesaf yn seiliedig ar yr amcanion cyfunol hyn, ynghyd â materion sy'n codi o ddadansoddi data eich ysgol.

Os na fydd ysgol am gyhoeddi amcan cydraddoldeb sy'n cwmpasu pob un o'r nodweddion gwarchoddedig, bydd yn ofynnol iddi gyhoeddi rhesymau cadarn a chyfiawn dros y dewis hwn.

Cynghorir i ysgolion weithio yn eu clystyrau neu eu teulu ysgolion wrth baratoi eu CCS, er mwyn rhannu gwybodaeth ac adnoddau.

Er bod cyfrifoldebau presennol ysgolion i lunio cynlluniau anabledd, cydraddoldeb a chydraddoldeb hiliol wedi'u dirymu, sylwer bod y gofyniad i lunio cynlluniau mynediad anabledd yn parhau a dylid ei gynnwys fel atodiad i'ch CCS. Yn yr un modd, mae'r gofyniad i gofnodi, monitro ac adrodd am bob achos o fwlio/aflonyddu sy'n seiliedig ar hunaniaeth yn parhau – gan ddilyn y broses ddiweddaraf a fabwysiadwyd yn Abertawe.

Cyflwyniad

Yn Ysgol Gyfun Gŵyr rydym yn ymroddedig i sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfleoedd i bob disgybl, staff, rhiant a gofalwr sy'n derbyn gwasanaethau gan yr ysgol, heb ystyried anabledd, hil, rhyw, oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil. Ein nod yw datblygu diwylliant o gynnwys ac amrywiaeth lle bo pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn ymfalchïo yn eu hunaniaeth ac yn gallu cymryd rhan yn llawn ym mywyd yr ysgol.

Caiff cyflawniad disgyblion ei fonitro a byddwn yn defnyddio'r data hwn er mwyn cefnogi disgyblion, gwella safonau a sicrhau addysgu cynhwysol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy hyrwyddo cydraddoldeb mewn modd cadarnhaol, gan herio bwlio ac ystrydebau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch at bawb. Yng Ngŵyr, rydym yn credu mai cryfder yw amrywiaeth, y dylid ei barchu a'i ddathlu gan bawb sy'n dysgu ac yn addysgu yn yr ysgol ac sy'n ymweld â hi.

Ein hysgol

Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn cynnwys 1,120 o ddisgyblion, 561o fechgyn a 559 o ferched, gan gynnwys 196 yn Nosbarth Chwech. Ceir 61 o staff addysgu gyfwerth amser llawn a 29 o staff cynnal gyfwerth amser llawn yn ogystal ag 20 o staff cegin a glanhau gyfwerth amser llawn, ac mae mwyafrif benywaidd ym mhob grŵp. Yn 2020-21, mae gan 9.0 % o'r disgyblion yr hawl i brydiau ysgol am ddim, ffigur sydd wedi cynyddu +3% ers 2016. Mae canran y disgyblion o oed ysgol gorfodol sydd ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol o gwmpas 15%. Mae'r holl ddisgyblion yn ddwyieithog, gyda thua 20% ohonynt yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg a thua 80% yn dod o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Nid oes cymysgedd ethnig arwyddocaol ym mhoblogaeth yr ysgol, ac y byddai'r mwyafrif llethol yn ystyried eu hunain fel Gwynion, Cymreig/Prydeinig.

Y Cefndir Deddfwriaethol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl yn erbyn gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu ar sail y nodweddion canlynol:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil (amddiffyn yn erbyn gwahaniaethu uniongyrchol yn unig)
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred/ddiffyg cred
- Rhyw
- Tueddfryd rhywiol.

Mae'r cynllun hwn yn un o ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Mae gennym 16 o reoliadau yng Nghymru ac mae'r cynllun hwn yn nodi sut byddwn yn bodloni'r ddyletswydd a'r rheoliadau ac yn parhau i wella ein perfformiad cydraddoldeb drwy ein hamcanion cydraddoldeb.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Ym mis Mai 2013, llofnododd Dinas a Sir Abertawe gytundeb â UNICEF y DU i gefnogi gwreiddio Ysgolion sy'n Parchu Hawliau **ymhob** ysgol gynradd ac uwchradd yn Abertawe erbyn 2017 a thrwy hynny bydd pob ysgol yn gymuned ddysgu sy'n seiliedig ar hawliau.

Mae Ysgolion sy'n Parchu Hawliau'n cydnabod cyflawniad trwy roi hawliau plant wrth wraidd cynllunio, polisiau, arfer ac ethos ysgol. Yn ogystal ag addysgu am hawliau plant o fewn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae ysgol sy'n parchu hawliau yn arddel hawliau a pharch yn ei holl berthnasoedd rhwng athrawon a disgyblion, rhwng rhieni a rhwng disgyblion.

Mae gan CCUHP 42 erthygl ac mae'n cynnwys llawer o feysydd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel, y cânt eu hamddiffyn rhag niwed, bod ganddynt y pethau y mae eu hangen arnynt er mwyn goroesi a datblygu, a bod ganddynt lais yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Trwy fod yn "ysgol sy'n parchu hawliau" a thrwy wreiddio hawliau plant yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae ysgolion yn cefnogi cydraddoldeb a thegwch i bob plentyn a pherson ifanc ac yn cryfhau lles disgyblion.

Datblygu Amcanion Cydraddoldeb a Chynnwys

Mae casglu gwybodaeth yn hanfodol i'n cefnogi i:

- benderfynu pa gamau gweithredu i'w cymryd i wella cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu yng nghymuned yr ysgol
- adolygu ein perfformiad
- cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Mae ymgysylltu hefyd yn seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd ynghylch cynrychiolaeth grwpiau gwahanol. Rydym yn ceisio gwneud hyn mor llawn â phosib wrth gydnabod materion sensitifrwydd o ran y gwahanol nodweddion a warchodir. Y rheswm pam mae'r cynnydd hwn yn bwysig yw er mwyn deall holl amrywiaeth anghenion cymuned yr ysgol.

Mae'r amrywiaeth o wybodaeth a gesglir i gefnogi ein cynllunio a chamau i hyrwyddo cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu yn cynnwys y canlynol:

- sylwadau disgyblion, rhieni/gofalwyr, staff, a llywodraethwyr;
- dadansoddi data e.e. cofnodion bwlio ac aflonyddu ar sail unrhyw nodweddion a warchodir;

Mae'r ysgol yn cynnwys **rhanddeiliaid** gan gynnwys plant a phobl ifanc, staff, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr a phobl eraill sy'n defnyddio'r ysgol o ran dyletswyddau cydraddoldeb. Rydym yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â phawb mewn ffordd hygyrch, gan ddefnyddio dehonglwyr/cyfieithwyr a fformatau gwybodaeth gwahanol pan fo'n briodol.

Ystyrir barn rhanddeiliaid a grwpiau eraill sy'n ymwneud â chydraddoldeb o ddifrif wrth i ni bennu blaenoriaethau. Fe'u gwahoddir drwy ffynonellau megis gwefan yr ysgol, llythyr, cyfarfodydd, i fynegi'u barn ar y sefyllfa gyfredol.

Asesiad Effaith

Yn y bôn, mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) yn fodd o edrych ar yr hyn rydym yn ei wneud fel ysgol i sicrhau nad yw ein polisiau'n a'n cynigion yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail unrhyw nodwedd warchoddedig. Diben AEC yw nodi unrhyw risgiau posib o ran gwahaniaethu anghyfreithlon a chyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb. Maent hefyd yn cefnogi cyflwyno rhagoriaeth o ran diwallu anghenion pawb.

Byddwn yn cynnal AEC ar ein holl bolisiau a'n cynigion.

Gwybodaeth, Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant

Er bod y dyletswyddau deddfwriaethol yn gofyn am adroddiadau ar ddata (fel amlinellwyd uchod), mae'n rhaid i ni hefyd:

- Hyrwyddo gwybodaeth am y dyletswyddau cyffredinol a phenodol a dealltwriaeth ohonynt ymhlith ein gweithwyr
- Defnyddio gweithdrefnau asesu perfformiad i nodi anghenion hyfforddiant gweithwyr mewn perthynas â'r dyletswyddau a mynd i'r afael â hwy.

Adlewyrchir y gofyniad hwn yn ein hamcanion cydraddoldeb.

Cyhoeddi, Monitro ac Adolygu

Byddwn yn cyhoeddi ein CCS ar wefan ein hysgol a sicrhau ei fod ar gael o swyddfa'r ysgol. Bydd y cynllun ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ar gais.

Mae'r ysgol yn adrodd yn flynyddol am gynnydd y cynlluniau gweithredu ac effaith y CCS ei hun ar ethos yr ysgol ac arfer yn yr ysgol. Fe'i gwneir fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr.

Fel rhan o'n cyfrifoldeb i fonitro'r CCS, rydym yn ymrwmo i wneud y canlynol:

- Ailystyried a dadansoddi'r wybodaeth a'r data a ddefnyddir i nodi blaenoriaethau ein hamcanion cydraddoldeb
- Adolygu cynnydd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb yn flynyddol.

Byddwn yn cynnal adolygiad llawn o'n CCS erbyn mis Medi 2020.

Defnyddir yr holl ddata a gesglir at ddiben dadansoddi tueddiadau yn ôl nodweddion gwarchodedig o ran perfformiad, y nifer sy'n derbyn gwasanaethau'r ysgol neu'r awdurdod lleol, a boddhad â'r gwasanaethau hynny. Caiff gwybodaeth o'r fath ei storio ar wahân i wybodaeth bersonol sy'n adnabod yr unigolyn. Er mwyn diogelu cyfrinachedd unigolion pan gyhoeddir gwybodaeth am dueddiadau, ni chyhoeddir deunydd am lai na 5 unigolyn.

Ysgol Gyfun Gŵyr
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024
Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu

Amcan Cydraddoldeb:				
Hyfforddi, a datblygu ymwybyddiaeth Staff/Llywodraethwyr am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth				
<u>Tasq</u>	<u>Person Cyfrifol</u>	<u>Dyddiad Cwblhau</u>	<u>Canlyniad</u> (a'i berthynas â'r amcan)	<u>Y diweddaraf am y prosiect</u> (caiff hwn ei gwblhau bob blwyddyn)
<u>2020 - 24</u>				
Adrodd nôl yn rheolaidd i staff/llywodraethwyr am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth o safbwynt yr ysgol, ac unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol cysylltiedig	Jeffrey Connick	Yn flynyddol	Staff/llywodraethwyr yn gynyddol dod yn fwy gwybodus am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth	Monitro sut y caiff y Ddeddf ADY newydd ei gweithredu yn yr ysgol. Dim datblygiadau arwyddocaol o bwys i'w adrodd yn 2019-20
<u>2020 -</u>				
Gwahodd y llywodraethwyr i ymweld â safle'r ysgol er mwyn nodi eu hunain anawsterau ffisegol sy'n effeithio cydraddoldeb ac amrywiaeth. Hwn yn arbennig o bwysig yng nghyddestun ehangiad ym maint campws yn 2020-21.	Jeffrey Connick	Yn flynyddol	Llywodraethwyr yn fwy ymwybodol o anawsterau ffisegol safle'r ysgol	Llywodraethwyr yn cael cyfle i ymweld â safle'r ysgol a thrwy hynny ceir monitro parhaus o anawsterau ffisegol. Yn ogystal, llywodraethwyr yn cael eu hysbysu yn rheolaidd ynghylch cynlluniau ehangu adeiladau'r ysgol a thrwy hynny unwaith eto monitri'r peryglon ffisegol posib. Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â'r maes hwn drwy gyfarfodydd tymhorol. Trwy'r gwaith hwn i gyd, y mae'r ysgol yn gweithio ar leihau anawsterau ffisegol.

<u>2020-</u>				
Hysbysu'r staff/ llywodraethwyr o faterion cyfredol sy'n gwrthweithio cydraddoldeb ac amrywiaeth ar safle'r ysgol	Jeffrey Connick	Yn flynyddol	Staff/llywodraethwyr yn fwy ymwybodol o'r sefyllfa gyfredol	Gwnaed hwn drwy gyfarfodydd y Corff Llywodraethol llawn a'r is-bwyllgorau yn 2019-20 a chyfarfodydd staff, a hefyd drwy gyfrwng bwletinau yn ystod y Clo Mawr
<u>2020-</u>				
Adnabod anghenion hyfforddiant penodol sydd gan staff/llywodraethwyr ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth	Jeffrey Connick	Yn flynyddol	Anghenion unigolion wedi'u diwallu	Gwnaed hwn yn rhan o brosesau anghenion hyfforddiant y Corff Llywodraethol 2019-20 (er yn gyfyngedig o ganlyniad i Covid-19) yn ogystal â phrosesau megis Rheoli Perfformiad Athrawon.

Ysgol Gyfun Gŵyr
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 - 2020
Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu

Amcan Cydraddoldeb:				
Lleihau'r effaith amddifadedd ar ddisgyblion trwy dargedu a chanfod strategaethau i gynorthwyo disgyblion PYD i godi safonau a'u cyrhaeddiad				
<u>Tasg</u>	<u>Person Cyfrifol</u>	<u>Dyddiad Cwblhau</u>	<u>Canlyniad</u> (a'i berthynas â'r amcan)	<u>Y diweddaraf am y prosiect</u> (caiff hwn ei gwblhau bob blwyddyn)
<u>2020 -</u>				
Parhau i gydweithio'n agos gyda staff, rhieni a disgyblion er mwyn deall effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad disgyblion. Defnyddio data er mwyn tracio cynnydd disgyblion sy'n ddiodef o amddifadedd gan ystyried camau gweithredu i leihau effaith tlogi ar ddisgyblion.	Rhodri Evans	Yn flynyddol	Cynyddu mewn ymwybyddiaeth staff ynghylch strategaethau i ddelio a gwella cyflawniad disgyblion PYD	Defnyddir system dracio er mwyn monitro cynnydd disgyblion PYD, gan ffocysu ar godi eu cyrhaeddiad academaidd. Rhennir rhestrau o ddisgyblion PYD gyda'r staff yn rheolaidd, gan nodi unrhyw newidiadau ar y gofrestr sirol. Rhennir ystadegau ar gyrhaeddiant disgyblion PYD yn HMS staff ar ddechrau mis Medi er mwyn annog staff i dargedu'r disgyblion hyn.

<u>2020 - 24</u>				
Cyflogi athro Mathemateg profiadol i weithio gyda disgyblion PYD ar lefel un-i-un, yn yr ysgol neu yn y cartref.	Rhodri Evans	Yn barhaus	<p>Cynnydd yn y nifer o ddisgyblion PYD sy'n cyrraedd gradd C neu uwch yn TGAU.</p> <p>Cynnydd yn y canran o ddisgyblion PYD sy'n cyrraedd Trothwy Lefel 2+.</p> <p>Gwelliant ymysg graddau A*/A disgyblion PYD.</p>	<p>Yn Haf 2019, roedd 76% wedi cyrraedd Trothwy Lefel 2+, gyda 16.7% o'r disgyblion PYD yn derbyn 5 A*/A yn eu canlyniadau.</p> <p>Aeth canran gradd C neu uwch ym Mathemateg ymysg y disgyblion PYD i fyny o 0% yn 2017 i 66.7% yn 2019.</p> <p>Yn Haf 2020, llwyddodd 100% o'r disgyblion PYD i gyrraedd Trothwy Lefel 2+.</p>
<u>2020 -</u>				
Cydweithio'n glos gyda rhieni disgyblion PYD a allai fod o dan anfantis trwy gyfathrebu'n gyson â hwy ar y ffôn ac wyneb i wyneb er mwyn trafod gofynion cyrsiau TGAU, dyddiadau allweddol a'r hyn y gallant wneud er mwyn cynorthwyo'u plant yn y cartref i gyflawni eu potensial.	Rhodri Evans	Yn flynyddol	<p>Rhieni'r disgyblion PYD yn mynychu'r cyfarfodydd. Adeiladu'r berthynas rhwng yr ysgol a'r cartref.</p> <p>Gohebiaeth gyson yn cadw'r rhieni'n ymwybodol o unrhyw broblemau neu anawsterau e.e. gwaith cartref, cwrs, arholiadau llafar a.y.y.b.</p>	<p>Targedwyd rhieni'r disgyblion PYD trwy siarad â hwy am y cymorth ychwanegol y gallai'r ysgol gynnig iddynt e.e. tiwtora Mathemateg</p> <p>Targedwyd y rhieni'n benodol a'u gwahodd i'r ysgol er mwyn trafod strategaethau er mwyn cynorthwyo eu plant a phwysleiswyd iddynt bwysigrwydd mynychu nosweithiau rhieni. Gwnaed defnydd o system ParentCall er mwyn cadw rhieni'n ymwybodol o wybodaeth bwysig ynglyn ag arholiadau, asesiadau, gwaith cwrs a.y.y.b.</p>

<u>2020 - 24</u>				
Tracio cynnydd disgyblion yn CA3 a CA4 er mwyn gweld unrhyw fylchau o ran ymdrech, gwaith cartref, meysydd lle mae'r disgybl yn trafferthu a gosod ymyrraeth briodol i gynorthwyo'r disgyblion hynny.	Rhodri Evans TRhU Adran ADY PDCh	Yn flynyddol	Strategaethau'n cael eu cyflwyno pan welir fod disgybl yn syrthio ar ei hôl hi. Adnabyddiaeth o anghenion y disgyblion.	Rydym yn parhau i dracio cynnydd disgyblion PYD yn CA3 a CA4 trwy fonitro eu hadroddiadau interim a diwedd blwyddyn. Gwnawn ddefnydd o system SIMS er mwyn adnabod unrhyw ddisgybl sydd mewn pergyll o syrthio drwy'r rhwyd, gan gyd-weithio gyda'r PDCh a'r Adran ADY. Caiff disgyblion PYD yn CA3 eu hychwanegu i'r grwpiau targed llythrennedd os ydynt ar y ffin er mwyn rhoi'r cyfle gorau posib iddynt. Ar ddiwedd CA3, cafwyd grwpio strategol wrth osod disgyblion PYD yn eu grwpiau TGAU gan sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys gydag athrawon roeddent yn hoffi ond hefyd gyda chyd-disgyblion oedd a dyheadau cryf i lwyddo ac uchelgeisiau amlwg.
<u>2020 - 24</u>				
Targedu disgyblion PYD sydd ag anhawster wrth gwblhau gwaith / diffyg cefnogaeth yn y cartref trwy glustnodi amser a lleoliad iddynt weithio gydag oedolyn a fydd yn medru eu cynorthwyo. Bwriedir gwneud hyn drwy'r Hafan a sesiynau gwaith cartref ar ôl ysgol. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo adrannau i sicrhau fod gwaith yn gyflawn a bod gan y disgyblion yr adnoddau angenrheidiol e.e. TGCh, llyfrau a.y.y.b.	TRhU	Yn flynyddol	Presenoldeb disgyblion yn y sesiynau cymorth ychwanegol. Sicrhau nad oes ffolios anghyflawn. Bydd cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer asesiadau llafar a.y.y.b. yn golygu fod marciau'r disgyblion yn cynyddu wrthi safonau godi.	Cynhelir nifer o sesiynau adolygu a sesiynau gwaith cwrs gan athrawon yr ysgol yn wythnosol. Mae'r Hafan hefyd yn ganolbwynt allweddol ar gyfer disgyblion sydd eisiau man tawel er mwyn gweithio gydag oedolyn wrth law os oes angen. Mae'r Hafan hefyd wedi'i ddodrefnu a'r offer angenrheidiol e.e. offer TGCh a.y.y.b. Bob nos Lun, ceir sesiwn ar ôl ysgol er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion ddal i fyny gydag unrhyw waith sydd wedi ei gollu. Gall disgyblion hunan-gyfeirio at yr Hafan neu gallant gael eu cyfeirio gan athro sy'n pryderu am eu cynnydd neu sydd eisiau gwaith wrthynt. Yn ystod y cyfnod Clo, darparwyd gliniaduron a donglau di-wifr i ddisgyblion PYD er mwyn osgoi amddifadedd digidol.
Ymuno â chynllun RADY (Raising Attainment of Disadvantaged Youngsters) - Prosiect ar y cyd gydag ERW	Rhodri Evans / Ysgol Gyfan	Gorffennaf 2021	<ul style="list-style-type: none"> Cynnydd yng nghyrrhaeddiad academiadd disgyblion PYD Cynnydd yn eu uchelgeisiau / hymrwymiad i weithgareddau allgyrsiol. 	Yn sgil absenoldeb data Llythrennedd a Rhifedd y profion cenedlaethol yn 2020, byddwn yn defnyddio data Midyis er mwyn adnabod a thargedu'r disgyblion mwyaf addas ar gyfer y prosiect hwn.

Amcan Cydraddoldeb

I hyrwyddo cydraddoldeb ym meysydd hawliau plant, hil, rhyw, anabledd, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol

Tasg	Person Cyfrifol	Dyddiad Cwblhau	Canlyniad (a'i berthynas â'r amcan)	Y diweddaraf am y prosiect
Parhau i hyrwyddo hawliau plant yn unol â CCUHP trwy fynychu'r Sgwrs Fawr, digwyddiadau gyda Chomisiynydd Plant Cymru, gwasanaethau, Wythnos Senedd y DU, ABCh a.y.b.	Rhodri Evans	Parhaus	Gwell dealltwriaeth o hawliau a sut maent yn effeithio ar bobl ifanc.	Er bod y Sgyrsiau Mawr wedi'u hatal yn ystod y cyfnod clo, bwriedir cynnal gweminar arlein er mwyn parhau a'r gwaith.
Sefydlu a rhedeg clybiau hawliau plant, merched, LHDT+, y Gymdeithas Gristnogol, gwrth-hiliaeth ac Islamoffobia.	RAE / AO / Myfyrwr 6ed Dosbarth	Parhaus	Darparu cyfle i bobl ifanc hyrwyddo hawliau ar lefel bersonol. Cynyddu dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud a hawliau ymysg pobl ifanc.	Yn absenoldeb y clybiau hyn oherwydd COVID-19, crewyd blog gan y disgyblion - Erthygl 54 - er mwyn dwyn sylw disgyblion eraill at hawliau cyfoes e.e. gwrthdystiadau Black Lives Matter. Dethlir Wythnos Hanes Pobl Dduon, mis Hanes LHDT+, Pride, Wythnos Ymwbyddiaeth ASD a.y.b.
Mynd am Wobr Aur Unicef - Ysgol sy'n Parchu Hawliau	RAE	2022	Derbyn y wobr yn seiliedig ar asesiad gan aseswr allanol.	Bellach mae asesiadau'n cael eu gwneud yn rhithiol. Bwriadwn addasu ein cynlluniau er mwyn cyflwyno ein gwaith yn ddigidol i'r aseswr.
I hybu ymwbyddiaeth o anghenion disgyblion ASD	RAE / EJM	2022	Derbyn y wobr yn seiliedig ar asesiad gan aseswr allanol.	Mae'r staff yn y broses o gael eu hyfforddi yn y maes hwn.

**Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl a Chynllun Mynediad /Disability Equality Scheme and Accessibility Plan
Ysgol Gyfun Gŵyr 2020 - 24**

Targed Target	Dull Gweithredu Means of Action	Erbyn Pryd By When	Gwerthuso Meini Prawf/Llwyddiant Evaluation: Success Criteria
<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i gofnodi an-ableddau Llywodraethwyr, Staff a Disgyblion. • Continue to record disabilities of Governors, Staff and Pupils. 	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod y gweithdrefnau presennol i gofnodi anableddau Llywodraethwyr, Staff a Disgyblion yn parhau. • Ensure that the present procedures of recording disabilities of Governors, Staff and Pupils continue. 	<p align="center">Parhaol/ Continuous</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cofnod cyfredol o anableddau Llywodraethwyr, Staff a Disgyblion ar gael. • Current record of disabilities of Governors, Staff and Pupils available.
<ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu ymwybyddiaeth o anableddau rhieni /gwarcheidwaid. • Increase awareness of parents'/guardian' disabilities. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnig cyfle i bob rhiant/gwarcheidwad yn ystod Nosweithiau Rhieni i gofnodi anableddau. • Provide an opportunity to every parent/guardian to record disabilities on Parents Evenings. 	<p align="center">Parhaol/ Continuous</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cofnod o anableddau rhieni/gwarcheidwaid ar gael. • Record of parents/guardians disabilities available.

<ul style="list-style-type: none"> • Aseu cyrhaeddiad addysgol disgyblion anabl. • Assess educational attainments of disabled pupils. 	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi canlyniadau disgyblion mewn asesiadau statudol ac arholiadau allanol, a chofnodi cyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol. • Analyse results of disabled pupils in statutory assessments and external examinations and record participation in extracurricular activities. 	<p style="text-align: center;">2021</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cofnod o gyrhaeddiad addysgol disgyblion anabl ar gael er mwyn ymateb i'r canfyddiadau. • Record of educational attainment of disabled pupils available in order to respond to findings.
<ul style="list-style-type: none"> • Aseu cyrhaeddiad gyrfaol o unrhyw staff anabl. • Assess the career attainment of any disabled staff. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyried disgrifiadau swydd staff anabl a thrafod eu cyfrifoldebau. • Consider job descriptions of disabled staff and discuss their responsibilities. 	<p style="text-align: center;">2021</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cofnod o gyrhaeddiad gyrfaol staff anabl ar gael er mwyn mesur cynhwysiant proffesiynol. • Record of career attainment of disabled staff available in order to measure professional inclusion.
<ul style="list-style-type: none"> • Aseiad o effaith polisiau a gweithdrefnau'r ysgol ar gyrhaeddiad staff a disgyblion. • Assessment of the impact of school policies and procedures on disabled staff and pupils. 	<ul style="list-style-type: none"> • Holi sampl o ddisgyblion a staff anabl am bolisiau a gweithdrefnau'r ysgol. • Question a sampl of disabled staff and pupils about school policies and procedures. 	<p style="text-align: center;">2021</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad yn cael ei gynhyrchu er mwyn gweithredu ar ganfyddiadau. • Report produced in order to action findings.

<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i wella safle'r ysgol ar gyfer pobl anabl. • Continue to improve the school site for disabled people. 	<ul style="list-style-type: none"> • Er Enghraifft:. • Ychwanegu at y rampiau mynediad sydd eisoes yn yr ysgol yng nghyswllt ehangu/datblygu campws yr ysgol. • Darparu mwy o ardaloedd parcio anabl yn ôl yr angen. • Adnewyddu drysau yn ôl yr angen i gydymffurfio gyda DDA yng nghyswllt ehangu/datblygu campws yr ysgol. • For Example: • Add to the accessibility ramps which are already in the school in the context of expanding/developing the school campus. • Provide further disabled parking spaces as required. • Renew doors across the school to comply with DDA in the context of expanding/developing the school campus. 	<p>Parhaol/ Continuous</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bod yr agweddau sydd wedi eu nodi yn y 'dull gweithredu' wedi'u cyflawni i ran helaeth iawn. • The aspects noted in the 'action plan' have been accomplished to a large degree.
--	---	-----------------------------------	---

<ul style="list-style-type: none"> • Gwella ymhellach mynediad i ddisgyblion anabl i gwricwlwm yr ysgol. • Improve access for disabled pupils to the school curriculum. 	<p>Gweithdrefnau ysgol gyfan yn eu lle i</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ganiatáu amser teg i holl ddisgyblion anabl cyflawni gwaith yn rhan o'r cwricwlwm • Sicrhau strategaethau/cymorth dysgu addas mewn gwersi/gweithgareddau allgyrsiol i gefnogi'r ystod o anableddau cymedrol sydd gan ddisgyblion. • Hyfforddi staff ynghylch y prif egwyddorion o ad-dysgu disgyblion anabl. <p>Whole school procedures in place to:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Allow sufficient time for all disabled pupils to accomplish work as part of the curriculum. • Ensure appropriate learning support/strategies in lessons/extracurricular activities to support the range of moderate learning difficulties had by pupils. • Train staff regarding the main principles of teaching disabled pupils. 	<p>Parhaol/ Continuous</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bod yr agweddau a nodwyd yn y 'dull gweithredu' wedi'u cyflawni i ran helaeth iawn. • That the aspects noted in the 'means of action' have been accomplished.
--	---	-----------------------------------	---